Diploma Cysylltiol CIPD mewn Rheoli Pobl

Lefel: 5

Coleg y Cymoedd
Business and International Services
Gwasanaethau Busnes a Rhyngwladol

CIPD Approved centre

Corff Dyfarnu: CIPD

Hyd: 43 wythnos (175 GLH)

Wedi'i anelu at

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sydd:

- Yn dyheu am yrfa mewn Rheoli Pobl neu sy'n dechrau ar yrfa mewn Rheoli Pobl
- Yn gweithio mewn rôl ymarfer pobl ac yn dymuno ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn helpu i lunio gwerthoedd sefydliad
- Yn gweithio tuag at rôl Rheoli Pobl neu sy'n gweithio mewn rôl Rheoli Pobl

Disgrifiad o'r cwrs a'r pynciau dan sylw

Mae'r cymhwyster hwn yn ehangu ymarfer annibynnol dysgwyr ymhellach i'w galluogi i symud ymlaen i rolau uwch mewn sefydliadau fel pobl broffesiynol.
Mae'r cymhwyster hwn yn berffaith i chi os ydych chi'n mwynhau datblygu a rheoli pobl. Byddwch yn ehangu eich gwybodaeth am AD gyda chyfuniad o unedau craidd a meysydd arbenigol - gan eich helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i chi.
Mae'r cymhwyster hwn yn ymestyn ac yn meithrin lefel ddyfnach o ddealltwriaeth a chymhwysiad ac yn naturiol yn datblygu arbenigedd dysgwyr mewn ymarfer pobl.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys yr Unedau canlynol:

Unedau craidd:

- Perfformiad a diwylliant sefydliadol ymarferol
- Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Ymddygiadau proffesiynol a gwerthfawrogi pobl

Unedau arbenigol:

- Rheoli perthnasoedd cyflogaeth
- Rheoli talent a chynllunio'r gweithlu
- Gwobrwyo perfformiad a chyfraniad

Unedau opsiynol:

- Cyfraith cyflogaeth arbenigol

Asesu

Asesir y cwrs hwn drwy aseiniadau.

Gofynion mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, er y bydd angen mynychu cyfweliad sefydlu.

Cost

£2350.00

Ffôn: 01443 663128
E-bost: bis@cymoedd.ac.uk

Cysylltwch â ni

Facebook: @CymoeddBISEvents
Twitter: @CymoeddBIS